Telerau ac Amodau AGORED 2021

Gofynnwn yn garedig i chi ddarllen y telerau ac amodau cyn cyflwyno eich cais.

Cynhelir yr arddangosfa yn Safle Celf, Safle CREU ac Y Wal yn Galeri rhwng 04.12.21 –14.01.22 ac mae'n hanfodol bod y gwaith ar gael yn ystod y cyfnod hwn i'w arddangos.

Does dim cyfyngiad o ran cyfrwng gwaith artist (ffilm, ffotograffiau, portreadau, crefft, gwydr ac ati), na chwaith cyfyngiad oed na lleoliad daearyddol artist/ymgeisydd wrth ymgeisio.

Sut i Ymgeisio

Dim ond ar ffurflen ar-lein mae posib cyflwyno eich cais. Gofynnwn am:

1. Dim mwy na 6 delwedd digidol (JPEG) 300dpi neu dim mwy na 6 gwaith ffilm dimmwy na thair munud o hyd yr un (linc ar gyfer youtube/vimeo) yn ogystal a maint/hyd a pris
2. Cyflwyniad/bywgraffiad am yr artist
3. Datganiad/cyflwyniad am y gwaith a gyflwynir
4. Ffi gweinyddol/cofrestru £10 (ni ellir ad-dalu)

Dyddiadau pwysig

Dyddiad cau cyflwyno eich gwaith	16:00		13.08.21
Panel yn dethol	erbyn		13.09.21
Artistiaid i gludo'r gwaith i Galeri	erbyn		28.11.21
Cyfnod arddangos	04.12.21	–	14.01.22
Agoriad swyddogol / dewis y beirniaid	14:00		05.12.21
Cyhoeddi gwobr dewis y bobl	16:00		14.01.22
Casglu'r gwaith o Galeri	15.01.22		

Panel detholwyr 2021:

2 Panel Dethol Gwadd ac Rebecca Hardy-Griffith (Galeri, Caernarfon)
(Yn anffodus ni all y panel roi adborth i artistiaid heb eu dethol ac mae eu penderfyniad yn derfynol.)

Hysbysu'r artistiaid:

Byddwn yn hysbysu'r holl artisitiaid o bwy sydd wedi eu dethol drwy ebost erbyn 13.09.21

Danfon a chasglu gwaith:

Bydd gofyn i'r artist sicrhau bod y gwaith yn cyrraedd y Safle Celf ar ddydd Sul, 28.11.21. Bydd yr arddangosfa angen bod yn barod i'w agor ar y dyddiad/amser a drefnir gyda'r cydlynydd celf. Bydd angen i'r artist drefnu bod y gwaith yn cael ei gasglu ar ddiwedd yr arddangosfa yn unol a'r cytundeb gyda'r cydlynydd celf.

Cludo y gwaith i/o Galeri:

Yr artist sydd yn gyfrifol am bacio'r gwaith ac am holl gostau a threfniant cludo i ac o'r Safle Celf.

Gosod y gwaith:
Bydd y trefnwyr yn gosod y gwaith/arddangosfa dan oruchwyliaeth cydlynydd celf Galeri.

Yswiriant:
Cynghorir ymgeiswyr i yswirio unrhyw waith a anfonir i/o Galeri. Bydd Galeri yn yswirio'rgwaith yn ystod y cyfnod arddangos.

Comisiwn ar werthiant:
Bydd comisiwn Galeri ar unrhyw werthiant yn 30% +TAW. (Cofiwch ystyried hyn pan yn prisio eich gwaith). Yr artist fydd yn cadw gweddill yr arian.

Cyflwyniad y gwaith:
Dylid sicrhau bod y gwaith yn cael ei gyflwyno yn broffesiynol. Gall cyflwyniad gwael effeithio ar ansawdd y gwaith gorffenedig. Am ganllawiau fframio a chyflwyno'r gwaith, cysylltwch â'r Cydlynydd Celf.

Am fwy o wybodaeth:
Cysylltwch â'r cydlynydd celf: 01286 685 208 agored@galericaernarfon.com